Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Plant Bodafon**

**Ysgol Bodafon**
**Ffordd Bodafon**
**Llandudno**
**LL30 3BA**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/12/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb Plant Bodafon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Plant Bodafon |
| Lleoedd cofrestredig | 41 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30/11/2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mwynhau eu hunain yn y lleoliad hwn, am eu bod yn cael eu parchu ac yn brysur yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Gallant wneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn dysgu sut i fod yn annibynnol ac yn rhyngweithio'n effeithiol.

Mae'r staff galluog yn gofalu am y plant yn dda ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig ac yn deg, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu'n llwyddiannus.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac yn cynnwys digonedd o weithgareddau ac ardaloedd chwarae a dysgu i feithrin sgiliau'r plant. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn addas ar gyfer y plant. Mae digonedd o deganau a gemau ar gael er mwyn helpu gyda datblygiad y plant, ac mae'r rhain mewn cyflwr da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol ac mae hyn yn sicrhau lefel dda o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cefnogi tîm o staff ymroddedig. Mae partneriaethau llwyddiannus a chadarn wedi'u meithrin â'r rhieni a'r ysgol, sy'n helpu'r plant i deimlo'n gartrefol ac yn helpu eu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf a gallant ddewis sut i dreulio eu hamser, a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, roedd y plant yn cael helpu eu hunain i'r teganau / gemau a oedd yn y cypyrddau. Gofynnir i blant hŷn y clwb ar ôl ysgol beth yr hoffent ei wneud, ac mae'r staff yn cynllunio yn unol â hynny.

Mae'r plant wedi setlo ac maent yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff, gan fynd atynt i gael help neu i sgwrsio. Mae hyn yn sicrhau cysondeb o ran y gofal a'r diogelwch ar gyfer y plant. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad, ac nad oes rhai plant eisiau gadael ar ddiwedd eu sesiwn. Mae'r plant yn hyderus. Er enghraifft, gwnaethant setlo'n gyflym ar gyfer amser byrbryd neu amser gweithgareddau wrth iddynt gyrraedd y clwb ar ôl ysgol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n effeithiol ac yn gwneud ffrindiau. Er enghraifft, maent yn gwrando'n dda ac yn hapus i helpu'r staff gyda thasgau pan ofynnir iddynt dacluso. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda â'i gilydd wrth chwarae â theganau adeiladu ar y llawr. Gwnaethant sgwrsio'n hapus wrth iddynt fwyta eu byrbryd. Mae'r plant yn dechrau rhannu adnoddau ac amser gyda'r staff. Er enghraifft, gwnaethant gymryd eu tro i ddefnyddio'r glud yn ystod amser crefft.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae, ac yn ymgysylltu ag ef. Gwelsom y plant yn ymgolli'n llwyr mewn gweithgareddau, megis chwarae â thŷ a phobl bach. Cwblhaodd plentyn jig-so gydag aelod o'r staff a chafodd yr ymdeimlad o gyflawniad wrth iddo ei orffen. Roedd y plant yn mwynhau chwarae gyda'r tywod cinetig yn arbennig. Maent yn dechrau canolbwyntio am gyfnodau hwy. Er enghraifft, chwaraeodd plentyn â thywod cinetig ar gyfer gwneud eitemau o wahanol siapiau a'u rhoi fel anrhegion bach. Mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau a arweinir gan oedolion neu weithgareddau rhydd, megis creu dyn eira o wlân cotwm.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau ac yn rhoi teganau i gadw ar ôl eu defnyddio cyn cael byrbryd. Maent yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, fel mynd i’r toiled a golchi eu dwylo.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gallu siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae'r staff yn glanhau'n effeithiol, ac maent yn sychu'r byrddau rhwng gweithgareddau. Maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr agored. Dywedodd rhiant wrthym fod y plant bob amser yn chwarae yn yr awyr agored yn yr haf. Mae'r staff yn deall y polisi damweiniau ac yn ei ddilyn, yn cadw cofnodion o anafiadau ac yn eu rhannu â'r rhieni. Maent yn darparu byrbrydau iach, megis ffrwythau ac mae'r staff yn gwneud cofnod o'r bwydydd a gynigiwyd.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda iawn â'r plant. Maent yn cefnogi'r plant i reoli eu hymddygiad ac yn hybu eu hunan-barch; maent yn rhoi llawer o ganmoliaeth i'r plant. Mae'r staff yn ofalgar ac maent yn rhyngweithio'n dda â'r plant, yn neilltuo amser iddynt, yn siarad â nhw ac yn gwerthfawrogi’r hyn y maent yn ei ddweud. Mae'r staff yn ymgysylltu â chwarae a dysgu'r plant gan eu bod gyda nhw bob amser ac yn eu goruchwylio'n dda, gan ofyn cwestiynau ystyrlon iddynt. Maent yn fodelau rôl da, gan siarad yn gwrtais â'r plant.

Mae'r staff yn ymwybodol iawn o gryfderau, anghenion a hoff bethau'r plant, ac maent yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant. Er enghraifft, maent yn ymwybodol o ofynion deietegol y plant gan addasu'r byrbrydau'n unol â hynny ac maent yn prynu teganau a gemau fydd y plant wedi gofyn amdanynt. Mae'r staff yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda am eu bod wedi gweithio yn y lleoliad ers sawl blwyddyn. Caiff y ffurflenni cofrestru a'r contractau sy'n nodi'r holl fanylion angenrheidiol eu cwblhau gan y rhieni. Ar ôl cynnal trafodaeth, cytunwyd y byddai gofyn i'r rhieni ddarparu manylion am frechiadau'r plant yn ddefnyddiol. Mae'r broses o gynllunio gweithgareddau yn ysgrifenedig wedi ailddechrau yn ddiweddar i sicrhau bod amrywiaeth dda o weithgareddau yn cael ei gynnig. Dywedodd plentyn wrthym yn frwdfrydig iddo fod am dro i gasglu dail a'i fod wedi eu paentio, a bod y staff wedi cynllunio gweithgareddau crefft. Er mai Saesneg yw iaith y clwb, caiff y Gymraeg ei defnyddio yn yr ysgol gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn aml yn bresennol yn y gwasanaeth. Ceir labeli Cymraeg ar yr holl hysbysfyrddau. Mae'r holl fesurau hyn yn sicrhau bod lefel briodol o'r iaith yn cael ei defnyddio yn y clwb.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn datblygu amgylchedd da i wella profiadau'r plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Maent wedi nodi risgiau ac wedi cymryd camau i leihau neu ddileu'r risgiau hynny. Er enghraifft, mae'r staff yn deall y risgiau wrth fynd â'r plant i chwarae yn yr awyr agored ac maent yn sicrhau eu bod yn cael eu goruchwylio bob amser. Mae ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael y safle yn ddiogel mewn argyfwng, a chaiff yr ymarferion hyn eu cofnodi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau amgylchedd addas ac yn darparu amrywiaeth o ardaloedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn lle gall y plant chwarae ac archwilio. Maent yn

sicrhau bod gan y staff y cyfarpar i ddarparu gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant. Mae'r lleoliad yn rhannu gofod ac adnoddau, megis toiledau, neuadd a'r iard, â'r ysgol. Mae bod mewn amgylchedd diogel a chyfarwydd yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wedi arddangos gwaith celf lliwgar ac addas yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Maent yn darparu adnoddau naturiol i'r plant eu harchwilio, fel tywod, blociau pren a dail. Mae'r plant hefyd wedi mwynhau modelu sbwriel, megis gwneud parc sgrialu gan ddefnyddio hen focsys ac eitemau eraill. Mae hyn yn helpu'r plant i sylweddoli pwysigrwydd ailgylchu ac ail-bwrpasu. Mae digon o storfeydd i gadw cyfarpar yn daclus, megis cypyrddau dan do a llofft yr ysgol.

Mae'r adnoddau, teganau a'r gemau yn addas, gan gynnwys deunyddiau crefft a gemau bwrdd, ac maent mewn cyflwr da. Mae ganddynt restr wirio ar gyfer glanhau'r teganau yn wythnosol lle y nodir hefyd pan gaiff teganau eu gwaredu gan eu bod wedi torri. Caiff y teganau eu gwirio bob hanner tymor a'u rhoi o'r neilltu os na fyddant yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r adnoddau newydd sydd angen eu prynu. Gwelsom lawer o adnoddau a gemau newydd, megis gleiniau a gemau bwrdd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus ac yn brofiadol o ran arferion gofal plant cyfredol. Nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben cynhwysfawr. Yn ystod yr arsylwadau a wnaed fel rhan o'r arolygiad, gwelwyd tystiolaeth fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru a'u rhannu â phob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn. Pennaeth yr ysgol yw'r Unigolyn Cyfrifol ac mae'r lleoliad yn anhepgor ac yn rhannu llawer o gyfleusterau'r ysgol. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon ar y trefniadau hyblyg a gaiff eu cynnig, sy'n cyd-fynd â'u hanghenion.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol bob tymor a bob blwyddyn. Mae'r gwasanaeth wedi gofyn i'r rhieni am eu barn gan ddefnyddio holiaduron. Caiff safbwyntiau'r rhieni a'r plant eu hystyried o ddifrif, a chaiff cryfderau a meysydd i'w gwella eu nodi yn yr Adolygiad Blynyddol o Ansawdd y Gofal. Er enghraifft, mae'r gwelliannau i'r gwaith papur yn sicrhau bod y broses o gysylltu â rhieni mewn argyfwng yn fwy effeithiol. Mae cynlluniau ar waith i gwblhau gwelliannau yn y dyfodol, megis lleihau nifer y plant sydd wedi'u cofrestru i ddarparu ar eu cyfer. Byddai hyn yn dileu'r angen am reolwr ychwanegol. Hefyd, mae cynlluniau ar waith i fynd â'r plant ar fwy o deithiau ac i fynd am dro.

Mae'r broses recriwtio staff yn gadarn. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl wiriadau ar waith i ddangos bod y staff yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r arfarniadau blynyddol, sy'n ystyrlon, yn cynnwys hyfforddiant a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Dywedodd y staff eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o redeg y gwasanaeth. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad (sef y staff rheolaidd) yn gweithio'n dda fel tîm, gyda phob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn arwain y plant yn briodol. O ganlyniad i hyn, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan staff digynnwrf a brwdfrydig. Roedd y staff yn gallu siarad yn hamddenol â'r rhieni a'r gofalwyr a oedd yn casglu eu plant o'r lleoliad. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn hyfryd a bod y plant

wrth eu bodd yn mynd i'r clwb. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn rhoi sgôr ardderchog i'r lleoliad.

Ceir cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill, ac maent yn cyfrannu at lesiant y plant gan fod modd i'r rhieni ddweud wrth y staff am yr hyn y mae eu plant wedi ei fwynhau yn arbennig. Mae dulliau cyfathrebu effeithiol ar waith rhwng y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r rhieni, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y bartneriaeth â'r rhieni iddynt. Gall y rhieni siarad â'r staff am ofal eu plentyn pan fyddant yn dod â'u plant neu'n eu casglu. Mae gan y lleoliad gydberthnasau agos iawn â'r ysgol a'r athrawon, sy'n rhoi sicrwydd bod y plant yn cael gofal cyson ac sy'n eu galluogi i setlo'n gyflym i addysg llawn amser.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Cynnwys cofnod o frechiadau ar y ffurflen gofrestru y mae'r rhieni yn ei chwblhau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |

| | |
|---|---|
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| **Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/01/2023